# Mewnosod dyfais diogelu'r ymennydd drwy'r croen i atal emboledd yr ymennydd wrth fewnblannu falf aortig trawsgathetr (TAVI)

12 Mehefin 2019

Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau, a hynny am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio.

Yn y broses mewnblannu falf aortig trawsgathetr (TAVI), gosodir falf newydd mewn falf ddiffygiol yn y galon. Caiff ei mewnosod drwy diwb (cathetr), drwy bibell waed fawr (rhydweli) ar ran uchaf y goes neu yn y fraich. Gall hyn ryddhau dyddodion brasterog a all flocio'r rhydwelïau sy'n cyflenwi gwaed i'r ymennydd (emboledd yr ymennydd), gan achosi strôc. Yn ystod y driniaeth hon, cyn i'r falf newydd gael ei mewnosod, gosodir dyfais diogelu'r ymennydd y tu mewn i rydweli yn agos at y galon. Ceir gwahanol fathau o ddyfeisiau. Maent naill ai'n hidlo'r gweddillion allan o'r gwaed neu yn eu gwyro oddi wrth yr ymennydd. Caiff y ddyfais ei thynnu ymaith ar ddiwedd y driniaeth TAVI. Nod hyn yw lleihau'r risg o strôc.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN 978-1-4731-3429-4



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.